

## Agenda – Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

---

|                                   |  |
|-----------------------------------|--|
| Lleoliad:                         | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  |
| Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd   | Alun Davidson  |
| Dyddiad: Dydd Iau, 21 Ionawr 2016 | Clerc y Pwyllgor   |
| Amser: 09.15                      | 0300 200 6565  |
|                                   | <a href="mailto:SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru">SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru</a> |

---

### Rhag-gyfarfod preifat

(09.15–09.30)

#### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

#### 2 Craffu ar y gyllideb ddrafft

(Tudalennau 1 – 20)

#### Craffu ar y Gyllideb Ddrafft – y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

(09.30–10.30)

Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Andrew Slade, Cyfarwyddwr, Amaeth, Bwyd a'r Môr

Matthew Quinn, Cyfarwyddwr, Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Neil Hemington, Y Prif Gynllunydd, Dirprwy Gyfarwyddwr

Tony Clark, Pennaeth Cyllid, Group, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

#### Craffu ar y Gyllideb Ddrafft – y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ac y Dirprwy

#### Gweinidog Ffermio a Bwyd

(10.30–11.30)

Carl Sargeant AC, Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Rebecca Evans AC, Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

Andrew Slade, Cyfarwyddwr, Amaeth, Bwyd a'r Môr

Dr Christianne Glossop, Cyfarwyddwraig, Swyddfa y Prif Swyddog Milfeddygol

Tony Clark, Pennaeth Cyllid, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol



**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfodydd ar 27 Ionawr a 10 Chwefror**

**Ôl-drafodaeth preifat**

(11.30-12.00)

## Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Yr Is-bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Dyddiad: 21 Ionawr 2016

Amser: 09.30 – 11.30

Teitl: Papur tystiolaeth – Cyllideb Ddrafft 2016-17  
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol;  
Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor fel y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, am gynlluniau gwariant mewn perthynas â'r cyllidebau yn fy mhortffolio fel y'u hamlinellir yn y gyllideb ddrafft, a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2015.

### Cefndir

2. Mae cyllideb ddrafft 2016/17 yn rhoi cynllun buddsoddi sy'n para blwyddyn er mwyn cyflwyno'r portffolio Cyfoeth Naturiol yng Nghymru.
3. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft fel a ganlyn:

| MEG Naturiol                          | Cyfoeth | Cyllideb Atodol 1<br>2015-16<br>£m | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig<br>2015-16<br>£m | Newidiadau<br>2016-17<br>£m | Cyllideb Ddrafft Ddangosol<br>2016-17<br>£m |
|---------------------------------------|---------|------------------------------------|--|-----------------------------|---|
| DEL Refeniw                           |         | 288.558                            | 294.083                                      | -16.323                     | 277.760                                     |
| DEL Cyfalaf                           |         | 115.680                            | 63.180                                       | 25.635                      | 88.815                                      |
| <b>Cyfanswm Cyllideb DEL</b>          |         | <b>404.238</b>                     | <b>357.263</b>                               | <b>9.312</b>                | <b>366.575</b>                              |
|                                       |         |                                    |  |                             |   |
| <b>Gwariant a Reolir yn Flynyddol</b> |         | <b>2.900</b>                       | <b>2.900</b>                                 | <b>0.0</b>                  | <b>2.900</b>                                |
|                                       |         |                                    |  |                             |   |
| <b>Cyfanswm Cyllideb y MEG</b>        |         | <b>407.138</b>                     | <b>360.163</b>                               | <b>9.312</b>                | <b>369.475</b>                              |

4. Diwygiwyd ffigurau llinell sylfaen y gyllideb (Cyllideb Atodol 1) ar gyfer 2015-16, gan ddileu unrhyw ddyraniadau untro fel rhan o'r gyllideb atodol gyntaf neu ddyraniadau gan y DU er mwyn gallu llunio cymhariaeth debyg at ei debyg o gyllidebau Diwygiedig 2015-16 â chyllideb ddrafft 2016-17.

5. Mae'r tabl canlynol yn cysoni'r gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 â'r gyllideb sylfaenol ddiwygiedig ar gyfer 2015-16.

| <b>DEL Refeniw</b>  | <b>£m</b>      |
|---|----------------|
| Cyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16                              | 288.558        |
| Cyfoeth Naturiol Cymru - wedi cwblhau ad-daliadau Buddsoddi i Arbed               | 4.013          |
| Adnabod Anifeiliaid - Cyllid gan y DU ar gyfer BCMS i mewn i'r Gyllideb Sylfaenol | 1.512          |
| <b>Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer refeniw 2015-16</b>                       | <b>294.083</b> |
| <b>DEL Cyfalaf</b>  | <b>£m</b>      |
| Cyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16                              | <b>115.680</b> |
| Tlodi Tanwydd - Dyrannwyd blwyddyn olaf WIIP yn 2014-15                           | (35.000)       |
| Twf Gwyrdd - Dyrannwyd WIIP anghylchol yn 2014-15                                 | (5.000)        |
| Perygl Llifogydd - Dyrannwyd blwyddyn olaf WIIP yn 2014-15                        | (12.500)       |
| <b>Llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer cyfalaf 2015-16</b>                       | <b>63.180</b>  |
| <b>Cyfanswm llinell sylfaen DEL ddiwygiedig 2015-16</b>                           | <b>357.263</b> |

### Cyllideb Ddrafft 2016-17

6. Yng Nghyllideb Ddrafft 2016-17, mae cyllideb refeniw Cyfoeth Naturiol yn gostwng £16.323m (5.5%) o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2015/16. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £5.386m mewn cyllid i raglen Gwastraff Gweddilliol Blaenau'r Cymoedd ac arbedion refeniw gofynnol o £19.926m (6.8%). Gellir priodoli gweddill y newidiadau i drosglwyddiadau rhwng y Prif Grwpiau Gwariant (MEG), ad-drefnu nifer o Linellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) a Chamau Gweithredu ac ailflaenoriaethu, fel y nodir yn yr Atodiad.

| <b>DEL Refeniw</b>  | <b>£m</b>      |
|---|----------------|
| Cyllideb Sylfaenol Ddiwygiedig 2015-16                            | 294.083        |
| Cyllid ar gyfer Rhaglen Gwastraff Gweddilliol Cwm Yfory           | 5.386          |
| Ad-dalu taliadau Buddsoddi i Arbed CNC i Gronfeydd wrth Gefn      | (1.783)        |
| Gostyngiadau gofynnol yn y Gyllideb Refeniw i Gronfeydd wrth Gefn | (19.926)       |
| <b>DEL Cyllideb Refeniw Ddrafft 2016-17</b>                       | <b>277.760</b> |

7. Rwyf wedi gwneud y gwaith paratoi ar gyfer y gyllideb yn unol â'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau y caiff y Ddeddf ei gweithredu yn llawn fis Ebrill nesaf, ac er mwyn sicrhau gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy. Yn wyneb cyllidebau is, bu'n rhaid canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor.
8. Mae'r camau a gymerwyd yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau fel Llywodraeth, er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i Gymru. Fodd bynnag, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac o fewn fy mhortffolio, rwyf wedi diogelu gwasanaethau rheng flaen pan fo hynny'n bosibl ac wedi sicrhau y caiff toriadau cyllidebol gyn lleied o effaith â phosibl ar y bobl hynny yng Nghymru rydym yn ceisio eu hamddiffyn.
9. Mae'r tabl isod yn dangos sut rwyf wedi dyrannu'r toriadau i'r gyllideb refeniw.

| <b>Toriadau refeniw</b>   | <b>£m</b>     |
|---|---------------|
| Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-15                   | 3.269         |
| Datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer materion gwledig  | 0.086         |
| Datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru  | 0.318         |
| Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid  | 0.765         |
| Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd        | 2.435         |
| Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion | 2.410         |
| Rheoli a gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff  | 2.934         |
| Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwelliannau amgylcheddol lleol                                   | 1.309         |
| Noddi a rheoli cyrff gweithredu   | 5.097         |
| Datblygu sail dystiolaeth briodol   | 0.100         |
| Hyrwyddo a chefnogi tirweddau a ddiogelir   | 0.561         |
| Cynllunio a rheoleiddio   | 0.642         |
| <b>Cyfanswm y toriadau</b>  | <b>19.926</b> |

10. Bu buddsoddiad o £5.4m ym Mhrosiect Caffael Gwastraff Gweddilliol "Cwm Yfory", sef partneriaeth ar y cyd rhwng pedwar awdurdod lleol - Merthyr Tudful, Torfaen, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf. Bydd y rhaglen, gyda chymorth partneriaid allanol, yn helpu'r awdurdodau i gyflawni eu targedau ailgylchu gwastraff ac mae ganddi'r potensial i ddargyfeirio dros 95% o wastraff gweddilliol o safleoedd tirlenwi.

| <b>Ychwanegiadau referniw</b>           | <b>£m</b> |
|---|-----------|
| Rhaglen Gwastraff Gweddilliol Cwm Yfory | 5.386     |

11. Wrth i mi adolygu'r cyllidebau, rwyf hefyd wedi ailddyrranu rhai cyllidebau o fewn fy mhortffolio er mwyn sicrhau fy mod yn taro'r cydbwysedd cywir o ran buddsoddiadau a cheir nifer o newidiadau cyflwyniadol hefyd a nodir isod.

| <b>Ailgysoni cyllidebau referniw o fewn y MEG</b>  | <b>£m</b> |
|--|-----------|
| Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr: cyllid ychwanegol ar gyfer CPH ac EIDCymru  | 0.108     |
| Gweinyddu'r PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru: cyllid ychwanegol ar gyfer Cyfreithlondeb a Rheoleidd-dra Archwilio'r PAC                        | 0.095     |
| Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-15: Ailflaenoriaethu'r gyllideb i bwysau eraill                                   | (0.131)   |
| Datblygu a rheoli'r môr, pysgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru: cyllid ychwanegol ar gyfer gorfodi morol                                 | 0.110     |
| Datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru - ailflaenoriaethu'r gyllideb i bwysau eraill   | (0.182)   |
| Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol: cyllid ychwanegol ar gyfer Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 0.934     |
| Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd: ailflaenoriaethu i bwysau eraill.                                  | (0.108)   |
| Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd: Trosglwyddo cyllideb ar ôl uno'r ddau gam gweithredu               | 0.718     |
| Hwyluso ynni glân a diogel: Trosglwyddwyd cyllideb ar ôl uno camau gweithredu.   | (0.718)   |
| Rheoli a gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff: ailgysoni  | (0.826)   |
| Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwelliannau amgylcheddol lleol: Trosglwyddo cyllideb ar ôl uno camau gweithredu.  | 5.136     |
| Rheoli a gweithredu gwelliannau amgylcheddol: Trosglwyddo cyllideb ar ôl uno camau gweithredu  | (5.136)   |

### **Dyraniadau Cyfalaf Ychwanegol**

12. Yng Nghyllideb Ddrafft 2016-17, mae cyllideb cyfalaf Cyfoeth Naturiol yn cynyddu £25.635m (40.5%) o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig

2015/16. Mae hyn yn cynnwys cyllid cyfalaf WIPP ychwanegol o £16.0m a chyfalaf cyffredinol ychwanegol o £9.635m. Newidiadau cyflwyniadol yw'r gweddill a wnaed drwy ad-drefnu nifer o Linellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) a Chamau Gweithredu ac ailflaenoriaethu, fel y nodir yn yr Atodiad.

| <b>DEL Cyfalaf</b>  | <b>£m</b>     |
|---|---------------|
| Cyllideb Sylfaenol Ddiwygiedig 2015-16  | 63.180        |
| Cyllid WIIP ar gyfer Llifogydd - Llanelwy   | 3.000         |
| Cyllid WIIP ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol                                | 3.000         |
| Cyllid WIIP ar gyfer Effeithlonrwydd Ynni Cartrefi Clyd                                 | 5.000         |
| Cyllid WIIP ar gyfer Datblygu Twf Gwyrdd  | 5.000         |
| Dyraniadau cyfalaf cyffredinol ar gyfer Llifogydd (Trebefered a Phorthcawl)             | 4.210         |
| Dyraniadau cyfalaf cyffredinol ar gyfer y Rhaglen Newid Gydweithredol ym maes gwastraff | 2.000         |
| Dyraniadau cyfalaf cyffredinol ar gyfer datblygu Twf Gwyrdd                             | 3.425         |
| <b>DEL Cyllideb Cyfalaf Ddrafft 2016-17</b>   | <b>88.815</b> |

#### £3m o Gyllid WIIP ar gyfer Llanelwy

13. Mae'r cynllun rheoli perygl llifogydd yn Llanelwy yn ymrwymiad y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth iddo. Bydd y cynllun hwn yn lleihau'r perygl o lifogydd ar hyd afon Elwy yng nghanol y ddinas, sy'n fuddiol i'r trigolion hynny a ddiroddedod lifogydd difrifol yn 2012 a'r rhai y bu ond y dim iddynt ddiroddedod llifogydd ar ddechrau'r gaeaf hwn. Mae pob caniatâd wedi'i sicrhau ac mae'r cynllun yn barod i'w adeiladu. Bydd yr amddiffynfeydd yn lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd o 1 ym mhob 50 i o leiaf 1 ym mhob 200 a bydd o fudd i 414 eiddo.

#### £3m o Gyllid WIIP ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol

14. Cyhoeddais y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol yn 2014, a fydd yn defnyddio cyllid arloesol i gyllido gwerth £150m o brosiectau cyfalaf er mwyn addasu'r arfordir a'i helpu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

15. Rydym yn darparu £3 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y gwaith paratoi pwysig hwn. Mae'n hollbwysig i lwyddiant y rhaglen ehangach gan ei fod yn disgrifio pob cynllun yn fanwl, gan gynnwys sut y caiff risgiau eu trin yn ogystal â'r manteision lles, economaidd ac amgylcheddol ychwanegol.

#### Cartrefi Clyd: £5m



16. Dyrannwyd £5m i Raglen Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru. Mae Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy sicrhau y gall pob aelwyd incwm isel yng Nghymru gael gafael ar gyngor a chymorth i'w helpu i leihau ei biliau tanwydd. Ar gyfer y deiliaid tai hynny sy'n wynebu'r angen mwyaf ond na allant fforddio gwneud eu cartrefi yn fwy ynni effeithlon, gall y cynllun ddarparu pecyn o welliannau ynni i'r cartref am ddim. Mae gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i drechu tlodi tanwydd yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon.

#### Twf Gwyrdd: £5m

17. Caiff y £5m a ddyrennir i Twf Gwyrdd Cymru ei ddefnyddio er mwyn buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus. Caiff y cyllid ei ddarparu ar ffurf benthyciadau di-log drwy elfen 'Twf Gwyrdd' newydd ein rhaglen Buddsoddi i Arbed a bydd yn cefnogi ein rhaglen ehangach i fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd sy'n lleihau allyriadau a chostau refeniw.

#### Llifogydd - Cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd Trebefered a Phorthcawl: £4.21m

18. Mae cynllun Trebefered, sydd werth £1.96 miliwn, wedi'i leoli mewn ardal sydd wedi cael llifogydd rheolaidd dros y blynnyddoedd diwethaf. Bydd yn lleihau'r perygl sy'n wynebu tua 25 o gartrefi a busnesau a bydd hefyd yn gwella amwynder. Bydd y cynllun yn ategu prosiect cyfagos sydd eisoes ar waith yn Llanmaes, gan leihau'r perygl i'r dalgyllch ehangach.

19. Byddai'r prosiect ar Draeth Tref Porthcawl yn cyllido gwerth £2.25 miliwn o welliannau i adnewyddu'r amddiffynfeydd arfordirol sy'n dirywio ar hyd Esplanade Road. Mae'r amddiffynfeydd presennol yn nesáu at ddiwedd eu hoes weddilliol, a byddai unrhyw fethiant ar eu rhan yn peryglu dros 260 eiddo sydd gerllaw'r môr ac yn y brif dref. Bydd y prosiect yn gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd arfordirol a newid yn yr hinsawdd yn ogystal â rhoi mynediad gwell i flaen y traeth a gwneud gwelliannau esthetig i'r cyrchfan twristaidd poblogaidd hwn.

#### Gwastraff - Rhaglen Newid Gydweithredol: £2m

20. Caiff y £2m ychwanegol ei fuddsoddi mewn seilwaith i geisio annog lefelau uwch o ailgylchu o ansawdd. Bydd y buddsoddiadau yn cefnogi'r flaenoriaeth i gyflawni targedau, lleihau effeithiau carbon a chefnogi swyddi gwyrdd drwy'r economi gylchol.

#### Cymorth ar gyfer Twf Gwyrdd: £3.425m

21. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu i weithredu ymyriadau ehangach mewn perthynas â thirweddau fel y rhagwelir gan Fil yr Amgylchedd.

22. Mae nifer o Gyllidebau Cyfalaf wedi'u hailgysoni a'u hailflaenoriaethu fel a ganlyn:

| <b>Ailgysoni cyllidebau cyfalaf o fewn y MEG</b>   | <b>£m</b> |
|--|-----------|
| Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr: ailflaenoriaethu i gyllido gwaith gorfodi morol   | (0.330)   |
| Datblygu a rheoli'r môr, pysgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru: cyllid ychwanegol ar gyfer gorfodi morol                                     | 0.330     |
| Darparu'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2007-13: daeth y Cynllun Datblygu Gwledig i ben ym mis Rhagfyr 2015, trosglwyddwyd y gyllideb i Gynllun Datblygu Gwledig newydd | (7.242)   |
| Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-15  | 7.242     |
| Hyrwyddo a chefnogi tirweddau a ddiogelir, mynediad ehangach i fannau gwyrdd: trosglwyddo cyllideb i Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwneud gwaith mynediad.                        | (0.900)   |
| Noddi a rheoli cyrff gweithredu (CNC)  | 0.900     |

## Y Rhaglen Lywodraethu

23. Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau, sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.
24. Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
25. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrrff cyhoeddus drwy bennu saith nod llesiant i Gymru, ac mae'r pum ffordd allweddol o weithio yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn arddel safbwynt hirdymor wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu atal problemau presennol rhag gwaethygu; eu bod yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o wneud penderfyniadau; a'u bod yn cynnwys defnyddwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.
26. Mae'r Adran yn cyfrannu at y nodau hyn a hynny'n bennaf drwy ei chyfrifoldebau am y ffordd rydym yn defnyddio'r tir, y dŵr a'r aer a'r asedau naturiol a ffisegol sy'n dibynnu arnynt. Gwnawn hynny drwy arfer pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â defnydd tir, cynllunio, cymorth

amaethyddol, diogelu'r amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid, natur ac adnoddau naturiol, effeithlonrwydd o ran ynni ac adnoddau a rheoli gwastraff, a hynny oll yng nghyd-destun hinsawdd sy'n newid.

27. Mae ein gwaith yn cyfrannu at y nodau llesiant gan fod ein cyfrifoldebau yn sail i bron bob agwedd ar fywyd a gwaith yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo'n benodol i sicrhau bod ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i fywydau'r rhai sydd â'r angen mwyaf a bod ein rhaglenni yn ymdrin â thlodi a gwahaniaethu.

### **Effeithiau Toriadau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)**

28. O ganlyniad i arbedion yn ystod y flwyddyn a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant diweddar, mae Defra bellach yn wynebu toriad o 15% ar gyfer 2016/17 gyda thoriadau o 30% dros y pedair blynedd nesaf.

29. I baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn, aeth Defra ati'n fewnol i flaenoriaethu rhaglenni a phrosiectau a gyllidir drwy'r gyllideb a rennir. Gwahoddwyd fy swyddogion i wneud sylwadau a thynnu sylw at unrhyw risgiau y byddai atal neu leihau cyllid yn eu peri i Gymru.

30. Mae gan Defra nifer o asiantaethau labordai gweithredol a Chyrff Llywodraethol Anadrannol sy'n cyflawni swyddogaethau tystiolaeth ar ran Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. O ganlyniad i'r Adolygiad o Wariant, mae Defra wedi comisiynu adolygiadau o'r asiantaethau a'r cyrff hyn er mwyn asesu eu rôl a'u swyddogaethau gyda'r nod o gyhoeddi'r canlyniadau yn ystod y chwe mis nesaf. Mae fy swyddogion wedi ceisio cyfrannu at y broses adolygu ar gam cynnar.

31. Yn wyneb y gostyngiad mewn adnoddau, mae fy swyddogion yn gweithio gyda Defra i gynyddu dylanwad ac atgyfnerthu partneriaethau â darparwyr ymchwil eraill fel cynghorau ymchwil a'r byd academiaidd. Er enghraifft, datblygwyd Datganiad o Fwriad gyda Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) er mwyn gwella ein gallu i gynhyrchu a defnyddio ymchwil o ansawdd i'n helpu i ddatblygu a gweithredu polisiau amgylcheddol cadarn. (Yng Nghymru, mae eich swyddogion yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi ein rhwydweithiau â'r gymuned ymchwil ac adeiladu arnynt er mwyn llywio ac ategu ein sail dystiolaeth.)

32. Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i gynnal asesiad llawn o effaith uniongyrchol y toriadau arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n hanfodol sicrhau cydweithredu a thryloywder llawn mewn perthynas â'r toriadau arfaethedig yn barhaus er mwyn galluogi swyddogion i arfarnu unrhyw risg yn llawn ac asesu'r effaith ar Gymru.

## Deddfwriaeth

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*

33. Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae ein cynigion cyllidebol wedi cael eu llunio yng nghyd-destun y dyletswyddau newydd sy'n deillio o'r Ddeddf, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i'w rhoi ar waith yn llawn ac yn llwyddiannus.
34. Wrth wraidd y Ddeddf mae pum ffordd o weithio sydd wedi llywio ein dull cyffredinol o bennu dyraniadau cyllidebol yn y ffyrdd canlynol:
- rydym wedi ystyried yr effeithiau **hirdymor** ac wedi'u cydbwysu yn erbyn ein hanghenion byrdymor:
  - mae cymryd camau **atal** er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu wedi bod yn sail i'n penderfyniadau:
  - gan weithio mewn ffordd **integredig**, rydym wedi meithrin dealltwriaeth ehangach o'r pwysau trawsbynciol sy'n bodoli ar draws ein meysydd â blaenoriaeth:
  - drwy **gydweithredu** ac ymgysylltu'n gyson, gwneir cyfraniad gwerthfawr i'n sail dystiolaeth gan ein helpu i ddeall effeithiau ein penderfyniadau:
  - Rydym yn ymrwymedig o hyd i ymgysylltu â phobl a'u **cynnwys** yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, er enghraifft, drwy fewnbnw amhrisiadwy Grŵp Cyngorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) a Thaith y Gyllideb gan y Gweinidog Cyllid.
  - Bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau anodd am sut i wario ein cyllideb y flwyddyn nesaf ond llywiwyd ein penderfyniadau gan ein hegwyddorion a'n gwerthoedd, sef tegwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol o ran iechyd, yr economi a'n cymunedau yn yr hirdymor.
35. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi ein helpu i wneud ein penderfyniadau ac rydym wedi adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein penderfyniadau a'n cynlluniau gwariant.
36. Rwyf wedi dewis ymdrin â pharatoadau'r gyllideb drwy edrych ar y dystiolaeth o anghenion a phwysau yn ein meysydd â blaenoriaeth - Iechyd a Gwasanaethau Iechyd, Twf a Swyddi, Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig.
37. Adlewyrchir hyn yn ein penderfyniadau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus a rhaglenni ataliol a'u diogelu, yn ogystal â chydbwysu anghenion byrdymor a hirdymor.
38. Mae ein deunydd ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn dangos sut rydym wedi ceisio adlewyrchu fframwaith y Ddeddf wrth bennu ein blaenoriaethau gwariant. Gwnaethom adolygu tueddiadau presennol ac amcanestyniadau

ar gyfer y dyfodol a'u heffaith bosibl yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Gwnaethom hynny er mwyn sicrhau, cyn belled â phosibl, na fydd ymatebion byrdymor yn achosi unrhyw effeithiau negyddol yn y tymor hwy.

39. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllideb gwerth tua £1.4 miliwn sydd wedi'i chynnwys o fewn BEL 2810, yn seiliedig ar yr amcangyfrifon yn yr Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol. Mae'r costau hyn yn cynnwys cost y Comisiynydd, staff cysylltiedig, panel cynghori a llety. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd bennu cyllideb y Comisiwn yn flynyddol mewn cytundeb â'r adran sy'n ei noddi.

### ***Deddf Cynllunio (Cymru)***

40. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol Deddf Cynllunio (Cymru) yn nodi effeithiau ariannol y broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) yn gyffredinol. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi Memorandwm Esboniadol ac Aseiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r pum offeryn statudol sy'n dynodi manylion y broses DAC, y cafodd y gyfran gyntaf ohonynt ei gosod ar 4 Rhagfyr.
41. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod strwythur ffioedd DAC yn seiliedig ar fodel adfer costau llawn ac felly, bwriedir iddo fod yn niwtral o ran costau.
42. Bydd costau sefydlu cychwynnol isel gwerth tua £14,000 ac, o gofio ei bod yn debygol y byddai Gweinidogion Cymru wedi gorfod penderfynu ar lawer o'r ceisiadau drwy drefniadau galw i mewn neu apelio o dan y system bresennol, mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn arbed tua £24,000 y flwyddyn mewn costau gweithredol.

### ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru)***

43. Mae costau a buddiannau'r Bil wedi'u hasesu a gwelwyd bod y buddiannau yn drech na'r costau, dros yr hirdymor.
44. Amcangyfrifwyd y bydd y Bil yn costio £291 miliwn ac amcangyfrifwyd y bydd y buddiannau yn werth £359 miliwn (y ddau wedi'u mesur gan ddefnyddio gwerth presennol dros 10 mlynedd). Felly, bydd y Bil yn arwain at fudd net o tua £68 miliwn (gwerth presennol dros 10 mlynedd).
45. Byddai gweithredu drwy bolisi yn creu costau tebyg ond ni fyddai modd sicrhau'r un buddiannau. Rhoddir pwyslais ar leihau beichiau, gwella costeffeithiolrwydd a symleiddio prosesau gan helpu i sicrhau budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol parhaol ar yr un pryd.
46. Er y bydd y Bil yn cyflwyno ffyrdd gwahanol o weithio i Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, a all greu costau ychwanegol i ddechrau, bydd y rhain yn cyd-fynd â gwaith i ymsefydlu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ei ategu.

47. Fodd bynnag, mae cryn botensial i wneud arbedion effeithlonrwydd yn y byrdymor a'r tymor canolig, drwy achub ar y cyfle i ddefnyddio'r fframwaith a geir yn y Bil er mwyn integreiddio a symleiddio swyddogaethau cynllunio a chyflawni a roddwyd ar waith drwy ddeddfwriaeth arall.
48. Mae'r effeithiau hyn yn ymwneud yn bennaf â Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (Rhan 1), Newid yn yr Hinsawdd (Rhan 2), Bagiau Siopa (Rhan 3) a Gwastraff (Rhan 4).
49. Mae prif gostau Rhan 1 o'r Ddeddf yn ymwneud â CNC a byddant rhwng £3.41m a £4.51m dros 10 mlynedd (gwerth presennol). Mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn ymwneud â gwaith CNC i lunio Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a datganiadau ardal.
50. Bydd Rhan 2 o'r Ddeddf yn sicrhau y gall Cymru leihau ei hallyriadau a newid i systemau carbon isel yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol, rhwymedigaethau'r UE a rhwymedigaethau cenedlaethol ac osgoi'r costau economaidd uwch sy'n gysylltiedig ag oedi cyn gweithredu.
51. Nid yw gweithredu targedau deddfwriaethol a fframwaith cyllideb garbon ynddo'i hun yn cyflwyno costau ychwanegol i unrhyw gyrff y tu allan i Lywodraeth Cymru.
52. Mae Rhan 3 yn disodli'r drefn bresennol i godi tâl am fapiau siopa a nodir yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 y DU gyda darpariaethau newydd sydd bellach wedi'u cynnwys ym Mil yr Amgylchedd (Cymru).
53. Ar y cyfan, mae'r darpariaethau newydd yr un fath â'r rhai yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd y DU ond bydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu tâl gofynnol am unrhyw fath o fag siopa, fel "bagiau am oes", nid dim ond bagiau siopa untro. Hefyd, mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr roi enillion net y tâl i achosion da.
54. Dim ond costau staff y bydd Rhan 3 y Bil yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Awdurdodau lleol fydd yn talu'r gost o fonitro a gorfodi'r drefn a bydd hyn yn costio tua £0.39m (gwerth presennol dros 10 mlynedd).
55. Mae Rhan 4 o'r Bil yn rhoi mwy o sicrwydd mewn perthynas â buddsoddi mewn seilwaith ailgylchu, casglu a thrin gwastraff, a fydd o fudd i'r economi, swyddi a'r amgylchedd. Heb y Bil, ni fydd fframwaith i lywio "Twf Gwyrdd" yn y sector ailgylchu gwastraff a darparu'r swyddi, y buddsoddiad a'r diogelwch adnoddau y gall y sector eu cynnig.
56. Mae'r Bil yn cyflwyno pwerau newydd, a anelir at fusnesau a chynhyrchwyr gwastraff annomestig eraill fel y sector cyhoeddus, i gynyddu'r deunyddiau sydd ar gael i'w hailgylchu, gwella ansawdd y deunyddiau sydd ar gael i'w

hailgylchu drwy gasgliadau ar wahân, a sicrhau na chaiff deunyddiau ailgylchadwy eu gwastraffu.

57. Mae gwaith modelu yn darogan budd ariannol net o £69.5 miliwn i Gymru, 2.5 miliwn o dunelli ychwanegol o ddeunyddiau a ailgylchir a lleihad cyfwerth â 2.1 miliwn o dunelli mewn CO<sub>2</sub> dros gyfnod o 10 mlynedd - gan wneud cyfraniad pwysig i dargedau allyriadau CO<sub>2</sub> Cymru.
58. Yn nhermau gwerth presennol, amcangyfrifir y bydd darpariaethau gwastraff y Bil yn costio £159 miliwn dros 10 mlynedd ac yn creu buddiannau gwerth £218 miliwn.
59. Bydd Rhan 4 o'r Bil yn arwain at gostau gweinyddol o £0.09m y flwyddyn (gwerth presennol dros 10 mlynedd) i Lywodraeth Cymru. Hefyd, bydd costau gweinyddol o £0.03m (gwerth presennol dros 10 mlynedd) a chostau parhaus o £0.43m (gwerth presennol dros 10 mlynedd) i CNC.
60. Mae Rhan 4 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Bydd y costau yn 2016/17 yn gysylltiedig â datblygu'r rheoliadau hyn a chânt eu talu gan ddefnyddio BEL y Strategaeth Wastraff.

#### **Deddf Sector Amaethyddol Cymru**

61. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer y canlynol—
  - (a) sefydlu Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru,
  - (b) llunio gorchmynion sy'n pennu'r telerau ac amodau ar gyfer unigolion a gyflogir ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru ("gweithwyr amaethyddol"),
  - (c) gorfodi'r cyfryw delerau ac amodau.
62. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â hyn, sef £183k, wedi'u cynnwys yn BEL 2865 y Gyllideb.

#### **Cydraddoldeb**

63. Cynhaliwyd asesiadau effaith integredig eleni ar gyfer y llinellau yn y gyllideb lle gwelir y newidiadau cyllidebol mwyaf arwyddocaol o fewn y portffolio Cyfoeth Naturiol. Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod, cynhaliwyd Asesiadau Effaith Integredig mewn perthynas â nifer o raglenni allweddol gan ganolbwyntio ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a Hawliau Plant. Caiff asesiadau effaith integredig eu prif ffrydio i brosesau pennu polisïau a phrosesau gwneud penderfyniadau cyllidebol.
64. Dengys canlyniadau'r asesiadau effaith nad yw'r penderfyniadau cyllidebol hyn yn cael unrhyw effaith anghymesur ar y grwpiau a nodwyd. Er enghraifft, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall awdurdodau lleoli reoli'r lleihad yn y gyllideb wastraff drwy wella effeithlonrwydd/newid arferion ac felly, ni welir fawr ddim effaith ar grwpiau gwarchoddedig.

## **Y Gymraeg**

65. Iaith Fyw: Iaith Byw yw strategaeth Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r strategaeth hon a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn datgan bod yr iaith Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru. Ein gweledigaeth yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru, a nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd yn cynyddu.

66. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud y tri pheth canlynol:

1. Ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (cadarnhaol a negyddol).
2. Ystyried sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau effeithiau andwyol ac achub ar bob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
3. Gofyn am farn ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu ac ymgynghori a gofyn am farn siaradwyr Cymraeg a'r rhai sy'n defnyddio'r iaith.

67. Fel rhan o broses yr Asesiad Effaith Integredig, rydym wedi ystyried effaith ein penderfyniadau cyllidebol ar y Gymraeg ac nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau sylweddol ar wasanaethau cyfrwng Gymraeg.

## **Hawliau Plant**

68. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU ac un o'r ychydig wledydd yn y byd i gorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn cyfraith ddomestig gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

69. Caiff y dyletswyddau yn y Mesur eu rhoi ar waith mewn dau gam ac mae'r Mesur yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yn CCUHP a'i brotocolau dewisol wrth lunio neu adolygu polisi a deddfwriaeth;
- rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yn CCUHP pan fyddant yn defnyddio eu holl bwerau neu ddyletswyddau cyfreithiol.

70. Ar draws y portffolio Cyfoeth Naturiol, mae'n rhaid i bob aelod o staff ystyried sut mae ei waith yn effeithio ar hawliau plant ac mae'r broses hon



wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar hawliau plant.

### **Gwariant cystadleuol/grantiau/benthyciadau gan yr UE**

71. Mae'r Cam Gweithredu "Gweinyddu'r PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru" a'r Cam Gweithredu "Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig" yn gyfrifol am weinyddu pob agwedd ar Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr Undeb Ewropeaidd (UE) yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys talu Cymorth Uniongyrchol Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGF) i ffermwyr - Cynllun y Taliad Sengl, a chymorth Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - y Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP).
72. Bydd cyfanswm y pecyn cyllido ar gyfer WGRC - RDP newydd 2014-20 yn galw am tua £400m o gydgyllid domestig dros gyfnod y rhaglen. Mae hyn yn golygu y bydd cyfanswm y buddsoddiad ar gyfer yr RDP newydd, ar ôl cynnwys y trosglwyddiad o Biler 1 a chyfraniad yr UE, yn fwy na £950m. Mae'n bwysig bod y gyllideb gydgyllido ddomestig yn gallu ariannu ymrwymadau Llywodraeth Cymru, nid yn unig yn 2016/17, ond dros gyfnod y rhaglen i gyd.
73. Mae'r RDP yn rhaglen amlflwyddyn seiliedig ar alw ac, yn anochel, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i mi adolygu'r gyllideb yn barhaus yn unol â'r galw a'r blaenoriaethau disgwylidig ym mhob blwyddyn. Er na fu unrhyw doriad i ymrwymiad cyffredinol yr RDP, rwyf wedi adolygu'r galw a'r blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 ac wedi proffilio'r gyllideb yn unol â hynny. Byddaf yn parhau i adolygu gofynion yr RDP ym mhob blwyddyn ariannol, fel y gwnaf gyda'm holl raglenni.
74. Rwyf yn gwneud cais am gyllid o raglen Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 er mwyn cefnogi cynllun Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru fel olynydd i raglen Arbed. Nid wyf wedi dod i gytundeb â WEFO eto ynglŷn â chyfanswm cost y prosiect na faint o gyllid fydd ei angen arnaf i'w gyllido.
75. Caiff cyllid cyfatebol ei ddarparu i gyd-fynd â'r cyllid refeniw a ddyrannwyd gennyf er mwyn helpu i ddatblygu llif o brosiectau cyfalaf. Rwyf wedi cynnal yr un lefelau hanesyddol o gyllid, ond rwyf wedi mabwysiadu nifer o fesurau effeithlonrwydd sy'n golygu bod modd cyflawni yn fwy effeithiol.
76. Cyllid cyfalaf yn bennaf fydd cyllid ERDF ar gyfer cynlluniau ynni bach, a rhagwelwn y daw'r rhan fwyaf o'r cyllid cyfatebol drwy fuddsoddiad gan y sector preifat.
77. Rydym yn cynnal trafodaethau â WEFO ynglŷn â sefydlu rhaglen newydd a ariennir ar y cyd er mwyn helpu prosiectau cynhyrchu ynni ac ynni deallus lleol, a fydd yn galw am gyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Caiff y cyllid a ddyrannir ar hyn o bryd i gamau cyflawni ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun newydd, a bydd yn canolbwyntio ar

ddatblygu llif o brosiectau. Bydd y rhan fwyaf o'r gronfa Ewropeaidd yn cefnogi prosiectau adeiladu cyfalaf, a daw cyllid cyfatebol drwy fuddsoddiad gan y sector preifat.

78. Rydym eisoes wedi integreiddio'r gwasanaeth hwn yn effeithiol â chynllun Cymru Effeithlon a dulliau cyflawni allanol eraill fel rhaglenni awdurdodau lleol, Adfywio Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru. Mae'r gwasanaeth bellach yn canolbwyntio ar gymorth arbenigol, sydd wedi ein galluogi i barhau i gyflawni hyd yn oed ar ôl i lefel y cyllid ostwng ar ôl cau rhaglen ERDF. Mae mwy o angen cymorth yn y dyfodol ym maes storio a rheoli grid, ac rydym yn anelu at wneud hyn drwy integreiddio ymhellach â rhaglenni eraill sy'n cefnogi arloesedd a datblygiadau seilwaith, fel cyllid arloesi Ofgem.
79. Rydym wedi sicrhau £1.5 miliwn o gyllid grant ELENA gan Fanc Buddsoddi Ewrop er mwyn ategu'r agweddau gweinyddol ar ein rhaglen REFIT newydd, gan gefnogi effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus. Mae swyddogion hefyd yn cynnal trafodaethau â Banc Buddsoddi Ewrop (a darpar fuddsoddwyr eraill fel y Banc Buddsoddi Gwyrdd) am opsiynau i fuddsoddi mewn corff hyd braich i gefnogi hyrwyddwyr prosiectau preifat a chyhoeddus yn y sector ynni. Rwyf wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ceisio barn ar y mater hwn. Fodd bynnag, dylid deall yn glir nad yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gwneud cais am fenthyciad uniongyrchol gan Fanc Buddsoddi Ewrop, nac unrhyw fenthycwyr eraill, gan na fyddwn yn cael pwerau benthycia cyfalaf uniongyrchol nes 2018.

### Amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol

| Dyraniadau llifogydd | 2015-16<br>£m | 2016-17<br>£m |
|----------------------|---------------|---------------|
| Refeniw              | 24.858        | 22.448        |
| Cyfalaf*             | 13.372        | 23.582        |

\* Llinell sylfaen ddiwygiedig ar ôl cwblhau Cyllid WIIP blaenorol

80. Bydd y gyllideb refeniw ar gyfer llifogydd yn gostwng £2.41m; fodd bynnag, bydd chwistrelliad o £10.21m o gyllid cyfalaf yn sicrhau y gall y gyllideb llifogydd gyflawni rhaglen lawn o waith rheoli perygl yn 2016/17.
81. Rydym eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer cynnydd o £150m yn y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol o 2018 ymlaen. Bydd hyn yn darparu lefelau buddsoddiad digyffelyb er mwyn sicrhau y gall ein cymunedau arfordirol barhau i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd yn ogystal â chyllido prosiectau addasu arfordirol arloesol. Mae cyllideb eleni yn cynnwys £3 miliwn i gefnogi gwaith arfarnu a dylunio prosiectau paratoadol.
82. Bydd y gostyngiad o £2.41m (9.7%) yn y gyllideb refeniw yn cael rhywfaint o effaith ar ddyraniad CNC o fewn y gyllideb hon. Fodd bynnag, bydd y gostyngiad yng nghyllid refeniw CNC ar gyfer llifogydd yn cael ei gapio ar

lefel o 5% er mwyn sicrhau na fydd yn tarfu ar wasanaethau. Mae CNC wrthi'n trafod â Llywodraeth Cymru sut y gellir gwneud arbedion mewn gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol.

83. Mae'r rhaglen llifogydd wedi buddsoddi bron £290 miliwn dros oes y Llywodraeth hon, gan gynnwys cyllid Ewropeaidd.
84. Mae mwy na 12,000 eiddo wedi cael budd o gynnydd mewn mesurau amddiffyn, ac mae'r buddsoddiad wedi cefnogi dros 930 o swyddi ac wedi helpu i adfywio cymunedau ledled Cymru a chyflwyno gwelliannau amgylcheddol iddynt.
85. Y gaeaf hwn yn unig, bydd y perygl llifogydd i 3800 eiddo yn lleihau'n sylweddol yn sgil cynlluniau sy'n cael eu cwblhau yn Nolgellau, Rhisga, Caerdydd, y Borth, Biwmares ac ar hyd Aber Afon Hafren.
86. Rydym yn defnyddio system rheoli risg i gyfeirio buddsoddiad at yr ardaloedd sy'n wynebu'r perygl mwyaf, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ledled Cymru a helpu'r lleoedd hynny sy'n dioddef o fân lifogydd rheolaidd. Os bydd y dyraniad cyfalaf yn ein rhwystro rhag buddsoddi ym mhob maes lle mae angen cyllid grant yn 2016/17, cânt eu cynnwys yn rhaglen y flwyddyn nesaf - unwaith eto, ar sail blaenoriaeth.

### **Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Môr a Physgodfeydd**

87. Fel yr eglurais yn fy natganiad ysgrifenedig ar 1 Ebrill, rydym yn adeiladu ar y nodau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Môr a Physgodfeydd Cymru o fis Tachwedd 2013.
88. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r prif fentrau, y caiff llawer ohonynt eu cyflawni mewn partneriaeth â rhanddeiliaid drwy'r Rhaglen Newid Morol.

### **Meysydd eraill o ddiddordeb i'r pwyllgor**

#### **Cynllun i Ddileu TB Buchol**

89. Yr hydref hwn, lansiodd y Dangosfwrdd TB, sef ffordd newydd o arddangos yr ystadegau sy'n cefnogi'r rhaglen i ddileu TB buchol. Mae'r dangosfwrdd yn rhoi darlun clir o'r sefyllfa o ran TB buchol yng Nghymru. Yn bwysicaf oll, mae ystadegau cyfredol yn dangos bod dros 94% o ffermydd yng Nghymru yn rhydd rhag TB. Cafodd Cymorth TB, sy'n darparu cymorth ychwanegol i ffermydd, yn enwedig y rhai sydd ynghanol achos newydd o TB, ei gyflwyno ledled Cymru hefyd ar ôl peilot llwyddiannus.
90. Bellach yn ei degfed mis, mae'r Bartneriaeth Weithredu Filfeddygol wedi ymsefydlu gyda dau bartner yn cynnal profion TB ledled Cymru drwy

bractisau milfeddygol preifat. Caiff y contract ei fonitro'n agos ac mae arwyddion cynnar o ymweliadau Sicrhau Ansawdd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion eisoes yn dangos bod mwy o gydymffurfiaeth â rheolau profi TB.

### **Sefydlu'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth**

91. Dyrannwyd cyllideb i orfodi darpariaethau'r Ddeddf ac i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru, fel y darparwyd ar ei gyfer yn y Ddeddf. Mae'r gyllideb a ddyrannwyd yn cwmpasu ffioedd aelodau'r panel, teithio a chynhaliaeth, cymorth ysgrifenyddol, costau cyngor cyfreithiol, argraffu a chyhoeddi gorchmynion a chanllawiau, cyngor ac ymchwil ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â rhedeg y Panel.

### **Cyllid CNC**

92. Gan adeiladu ar gryfderau ei gyrff rhagflaenol, mae CNC wedi cyflawni cryn dipyn yn barod ac mewn sefyllfa gref i ymateb i'r cyd-destun deddfwriaethol sy'n newid.

93. Mae wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd i osod ei sylfaen ac yn benodol, mae wedi dechrau datblygu trefniadau Rheoli Adnoddau Naturiol fel ei ddull creiddiol o gyflawni ei holl gyfrifoldebau. Mae rheoli adnoddau naturiol yn golygu edrych ar ardal ddaearyddol mewn ffordd gyfannol er mwyn cyflawni'r buddiannau cyffredinol gorau i amgylchedd, pobl ac economi'r ardal honno, a Chymru yn gyffredinol.

94. Fel y cyhoeddwyd yn ei Gynllun Busnes diweddar, mae CNC hyd yma wedi nodi arbedion i leihau costau ac wedi gwella cynhyrchiant mewn ffyrdd a fydd yn cyflawni gwerth mwy na £90m o fuddiannau. Mae llawer mwy o gyfleoedd i wella cynhyrchiant a lleihau costau fel rhan o'i Bortffolio Trawsnewid a gaiff ei lansio eleni.

95. Rwyf wedi ystyried y gyllideb a'r blaenoriaethau mewn perthynas â CNC yn ofalus ac rwyf wedi gofyn am arbedion o £5.097m drwy dorri'r gyllideb.

96. Mae'r arbedion y mae angen i CNC eu cyflawni yn adlewyrchu'r arbedion y cytunwyd arnynt fel rhan o'i achos busnes gwreiddiol, ynghyd ag addaliadau o gyllid Buddsoddi i Arbed blaenorol sydd wedi helpu'r sefydliad i ailstrwythuro a symleiddio gwasanaethau.

97. Mae CNC wedi derbyn buddsoddiad ychwanegol sylweddol ers iddo gael ei sefydlu gyda chyllid refeniw penodol ychwanegol a mwy na £22m o ddyraniadau cyfalaf er mwyn ei helpu i newid ei fusnes ac ymdopi â phwysau annisgwyl fel P Ramorum, a rhagwelaf y byddwn yn parhau i gefnogi'r mathau hyn o gyfleoedd a phwysau untro yn y dyfodol.

98. Bydd CNC yn rheoli'r arbedion hyn drwy ailstrwythuro ei weithlu, gweithredu rhaglen drawsnewid sy'n canolbwyntio ar leihau costau gwasanaeth y cyrff rhagflaenol a rhesymoli adeiladau.

## **EID Cymru**

99. O 18 Ionawr 2016, bydd yn orfodol i farchnadoedd anifeiliaid, lladd-dai a chanolfannau casglu gofnodi symudiadau defaid yn electronig. Nid oes rhaid i ffermwyr defaid gofnodi symudiadau eu defaid yn electronig ond mae llawer yn canfod bod EIDCymru yn cynnig dull cofnodi haws a mwy effeithlon iddynt.

